



Grymuso Addysgwyr | Empowering Educators



Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Datgloi potensial: Mewnwelediadau i wella
addysgu ac arweinyddiaeth mewn addysg
fathemateg**

**Unlocking potential:
Insights into improving teaching and
leadership in mathematics education**



Mae Doug Lemov yn dweud:

"Nid yw hyd yn oed y gweithdy gorau yn y byd (ac nid ydym yn honni bod y gweithdy hwn yn mynd i fod yn un o'r rheini) yn ddigon i newid ymddygiad oni bai bod rhyw fath o ddilyniant cadarnhaol"

Ni fydd sesiwn o ddilyniant ar ôl heddiw (er y byddwn yn ymweld gyda'ch ysgol rhywbryd yn y chwe mlynedd nesaf! Felly, yn ystod y sesiwn:

- ceisiwch adnabod o leiaf ddau beth rydyn ni'n eu rhannu gyda chi heddiw a allai wneud gwahaniaeth i'ch adran (trwy fabwysiadu'r syniad neu wella ymarfer sy'n digwydd yn barod.
- ystyriwch sut rydych yn mynd i weithredu i ymgorffori'r syniadau / wella'r hyn rydych yn ei wneud.

Doug Lemov says:

"Even the best workshop in the world (and we're not claiming that this will be one of those) isn't sufficient to change behaviour unless there is some kind of positive follow-up"

There will not be any follow-up from us to today's session, although we will visit your school sometime in the next six years. Therefore, during the session:

- try and identify at least two things that we share today which could make a difference to your department (by implementing or refining practice that already happens).
- consider what action you will need to take to implement these ideas / drive improvements.

Prif negeseuon sydd yn yr adroddiad

Main findings from the report

Negeseuon o'r adroddiad

Ar y cyfan, roedd ansawdd addysgu mathemateg yn rhy amrywiol

Ar y cyfan, roedd safonau disgyblion mewn mathemateg yn rhy isel.

Lle roedd addysgu yn effeithiol, gwnaeth disgyblion gynnydd da oherwydd bod gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gallai disgyblion ei gyflawni. Roedd yr athrawon hyn yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol a oedd yn herio pob disgybl yn effeithiol

Yn rhy aml, roedd gan athrawon ddealltwriaeth gyfyngedig o'r ffyrdd gorau o gefnogi dysgu disgyblion. Roedd hyn naill ai oherwydd nad oedd eu gwybodaeth pwnc yn ddigon cryf neu nad oeddent wedi datblygu eu addysgeg pwnc yn ddigon da.

Findings from the report

Overall, the quality of teaching of mathematics was too variable

Overall, pupils' standards in mathematics were too low.

Where teaching was effective, pupils made good progress because teachers had **high expectations** of what pupils could achieve. These teachers used a **range** of effective teaching methods that **challenged all** pupils well

Too often, teachers had a limited understanding of the best ways to support pupils' learning. This was either because their subject knowledge was not strong enough or they had not developed their subject pedagogy well enough.

Canfyddiadau'r adroddiad

Cwricwlwm

Lle gwelom drefniadau cwricwlwm **effeithiol**

- Roedd y ffocws ar ddysgu disgyblion
- Addysgu cytbwys o ansawdd uchel
- Cydweithio/ dealltwriaeth o ddilyniant/ camsyniadau

Roedd cynllunio'r cwricwlwm wedi'i gyfyngu gan

- ddiffyg eglurder mewn canllawiau cenedlaethol ac felly dealltwriaeth o ofynion CiG
- ddealltwriaeth anghyson o ddefnydd effeithiol o'r hyfedreddau mathemategol
- orddibyniaeth ar gynlluniau gwaith a brynwyd i mewn

Cefnogaeth gyfyngedig i wella ansawdd addysgu mathemateg. Nid oedd y gefnogaeth yn canolbwyntio'n ddigon da ar addysgeg na sut y dylai athrawon ddefnyddio eu gwybodaeth pwnc yn effeithiol i helpu disgyblion i ddysgu.

Findings from the report

Curriculum

Where we saw **effective** curriculum arrangements

- Focus was on pupils' learning
- High quality balanced teaching
- Collaboration/ understanding of progression/ misconceptions

Curriculum planning was **limited** by

- a lack of clarity in national guidance and therefore understanding of CfW requirements
- inconsistent understanding of the effective use of the mathematical proficiencies
- an overreliance on bought-in schemes of work

Limited support to improve the quality of mathematics teaching. The support wasn't focused well enough on pedagogy or how teachers should use their subject knowledge effectively to help pupils learn.

Where the teaching of mathematics is most effective and pupils make good progress, teachers:

- have **high expectations** and **challenge** all pupils well*:
- make effective use of a **range of teaching and assessment techniques** and use their findings from assessments to guide their teaching, adjusting the pace and level of challenge responsively:
- ensure that pupils **understand** what they are learning and how it connects to other areas of mathematics/ everyday life rather than just following instructions to get the correct answer:
- **question** pupils effectively to deepen their understanding of mathematical concepts and ensure they understand the 'how' and the 'why':
- skilfully *expose* and *address* pupils' **misconceptions** in a timely manner:
- ensure that pupils are constantly **thinking** and that the level of challenge is appropriate, stretching pupils without overwhelming them: and

Lle mae addysgu mathemateg yn fwyaf effeithiol a disgyblion yn gwneud cynnydd da, mae athrawon:

- gyda disgwyliadau uchel ac yn herio pob disgybl yn dda
- yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o dechnegau addysgu ac asesu, gan ddefnyddio eu canfyddiadau o asesiadau i lywio'r addysgu trwy addasu cyflymder a lefel yr her yn ymatebol
- yn sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn maen nhw'n ei ddysgu a sut mae'n cysylltu â meysydd eraill o fathemateg/bywyd bob dydd yn hytrach na dilyn cyfarwyddiadau i gael yr ateb cywir
- yn holi disgyblion yn effeithiol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol a sicrhau eu bod yn deall y 'sut' a'r 'pam'
- yn adnabod a mynd i'r afael â chamsyniadau disgyblion yn fedrus mewn modd amserol
- yn sicrhau bod disgyblion yn meddwl yn gyson a bod lefel yr her yn briodol, gan ymestyn disgyblion heb eu llethu
- rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r sgil hon yn annibynnol pan fydd disgyblion wedi dysgu sgil

Where teaching is less effective, and pupils do not make enough progress, teachers:

- teach pupils a **series of steps** so that they can obtain an answer and then provide pupils with **repetitive practice** without teaching pupils the 'why' and how the mathematical concept connects to other areas of mathematics or everyday life
- do not focus closely enough on **what they want pupils to learn** but instead plan tasks and activities to keep pupils busy:
- do not practice **responsive teaching** within mathematics classrooms, often due to a lack of confidence in their subject knowledge or pedagogy;
- limited the opportunities for pupils to develop **independent learning skills** due to over-directed teaching, lack of challenge, or ineffective questioning, and
- Do not **plan** well enough to **teach the understanding** of mathematical concepts and identify and address misconceptions. They often taught procedural shortcuts(tricks) rather than helping pupils understand mathematical concepts and make connections between topics.

Lle mae addysgu yn llai effeithiol, ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, mae athrawon:

- yn addysgu cyfres o gamau i ddisgyblion fel y gallant gael ateb ac yna darparu ymarferion ailadroddus, heb ddysgu disgyblion y 'pam' a sut mae'r cysyniad mathemategol yn cysylltu â meysydd eraill o fathemateg neu fywyd bob dydd
- yn cynllunio tasgau mae disgyblion yn mynd i wneud (ac sydd felly yn eu cadw yn brysur) yn hytrach na chynllunio yr hyn y maent am i ddisgyblion ei ddysgu a meddwl pa weithgareddau sydd yn mynd i alluogi hyn
- ddim yn addysgu'n ymatebol, yn aml oherwydd diffyg hyder yn eu gwybodaeth pwnc neu addysgeg;
- yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol oherwydd eu bod yn gor-arwain y dysgu, bod diffyg her, neu nad ydynt yn holi disgyblion yn ddigon effeithiol
- ddim yn cynllunio'n ddigon da i addysgu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol a mynd i'r afael â chamsyniadau. Mae'n nhw'n aml yn dysgu triciau gweithdrefnol yn hytrach na helpu disgyblion i ddeall cysyniadau mathemategol a gwneud cysylltiadau rhwng pynciau.

Nodweddion addysgu mathemateg effeithiol

1. Disgwyliad

- Mae ymagwedd gyson ac effeithiol iawn at addysgu a dysgu mathemateg yn yr ysgol
- Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei wneud
- Mae rhieni a'r gymuned yn ymwneud â dysgu disgyblion

2. Rhinweddau athrawon mathemateg effeithiol

- Mae athrawon yn tynnu ar eu dealltwriaeth o'r hyfedreddau mathemategol yn dda i sicrhau bod disgyblion yn dyfnhau eu dealltwriaeth o fathemateg ac yn gwneud cysylltiadau rhwng cysyniadau gwahanol
- Mae gan athrawon ddealltwriaeth gynhwysfawr o addysgeg fathemategol briodol
- Mae gan athrawon wybodaeth pwnc gadarn ac yn modelu eu meddwl yn effeithiol

Features of effective teaching of mathematics

1. Expectation

- There is a highly effective consistent approach to teaching and learning of mathematics within the school
- Teachers have high expectations of what pupils can do
- Parents and the community are involved in pupils' learning

2. Qualities of effective teachers of mathematics

- Teachers draw on their understanding of the mathematical proficiencies well to ensure pupils deepen their understanding of mathematics and make connections between topics and subjects
- Teachers have a comprehensive understanding of appropriate mathematical pedagogy
- Teachers have a secure subject knowledge and model their thinking effectively

Features of effective teaching of mathematics

3. Planning for learning

- Teachers plan to expose and address misconceptions. They treat misconceptions as opportunities for learning rather than treating them as wrong answers
- Teachers ensure that pupils have regular opportunities for retrieval practice
- Teachers break learning down into manageable chunks which supports the development of pupils' understanding and reduces cognitive load
- Teachers teach for understanding rather than setting tasks for completion
- Even when pupils are taught in attainment groups, teachers differentiate the work appropriately
- Teachers choose carefully the examples they use with pupils, building in small steps and exposing misconceptions
- Teachers provide pupils with opportunities to apply their learning in context and solve problems
- The curriculum is designed to stimulate pupils' engagement and curiosity
- Collaboratively designed schemes of learning highlight suitable opportunities for use of resources/ identification of misconceptions and a balance of direct teaching methods and other pedagogies
- Professional learning supports teachers to improve their subject knowledge and mathematical pedagogy

Nodweddion addysgu effeithol o fathemateg

3. Cynllunio ar gyfer dysgu

- Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer adnabod a mynd i'r afael â chamsyniadau. Maent yn trin camsyniadau fel cyfleoedd i ddysgu yn hytrach na'u trin fel atebion anghywir
- Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i adalw
- Mae athrawon yn rhannu dysgu yn ddarnau y mae disgyblion yn gallu ymdopi a hwy, sy'n cefnogi datblygiad dealltwriaeth disgyblion ac yn lleihau llwyth gwybyddol
- Mae athrawon yn addysgu er mwyn meithrin dealltwriaeth yn hytrach na gosod tasgau i'w cwblhau
- Hyd yn oed pan fydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn grwpiau cyrhaeddiad, mae athrawon yn gwahaniaethu'r gwaith yn briodol
- Mae athrawon yn dewis yn ofalus yr enghreifftiau maen nhw'n eu defnyddio gyda disgyblion, gan adeiladu mewn camau bach a datgelu camsyniadau
- Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu dysgu mewn cyd-destun ac i ddatrys problemau
- Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i ysgogi ymgysylltiad a chwilfrydedd disgyblion
- Mae cynlluniau gwaith yn tynnu sylw at gyfleoedd addas ar gyfer defnyddio adnoddau/adnabod camsyniadau a chydbwysedd o ddulliau addysgu uniongyrchol ac addysgeg eraill
- Mae dysgu proffesiynol yn cefnogi athrawon i wella eu gwybodaeth pwnc ac addysgeg fathemategol

Features of effective teaching of mathematics

4. Facilitating learning

- Teachers ensure that pupils are always thinking throughout the lesson
- Teachers provide pupils with clear explanations. They use methods and resources effectively so that pupils make good progress in their learning
- Teachers assess pupils learning effectively and use it to inform the direction of learning and future planning. Assessment is integrated seamlessly into each lesson.
- Teachers utilise good quality questioning that probes understanding and informs planning
- Pupils receive instant and/or verbal feedback that helps them know what they are doing well and how to improve
- Teachers place a strong emphasis on teaching the 'why' as well as the 'how'*-
- Teachers encourage pupils to set and test hypothesis.
- Teachers provide pupils with appropriate challenge in their learning

Features of effective teaching of mathematics

4. Hwyluso dysgu

- Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion bob amser yn meddwl trwy gydol y wers
- Mae athrawon yn rhoi esboniadau clir i ddisgyblion. Maent yn defnyddio dulliau ac adnoddau yn effeithiol fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Mae athrawon yn asesu disgyblion sy'n dysgu'n effeithiol ac yn defnyddio eu canfyddiadau i lywio cyfeiriad yr addysgu a chynllunio'r gwersi nesaf. Mae'r asesu wedi'i integreiddio gyda'r addysgu ym mhob gwers.
- Mae athrawon yn defnyddio cwestiynau o ansawdd da sy'n archwilio dealltwriaeth ac yn llywio'r cynllunio
- Mae disgyblion yn derbyn adborth ar unwaith ar lafar (neu trey ffyrdd eraill) sy'n eu helpu i wybod beth maen nhw'n ei wneud yn dda a sut i wella
- Mae athrawon yn rhoi pwyslais cryf ar addysgu'r 'pam' yn ogystal â'r 'sut'
- Mae athrawon yn annog disgyblion i osod a phrofi rhagdybiaethau.
- Mae athrawon yn rhoi her briodol i ddisgyblion yn eu dysgu

Problemau a adnabuwyd a datrysiadau posibl /
enghreifftiau o arferion effeithiol

Issues identified and possible solutions /
examples of effective practice

Theori Amrywiad

'nid oedd athrawon yn cynllunio'n ddigon da i addysgu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol'

'Lle mae addysgu yn llai effeithiol, ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, mae athrawon yn addysgu cyfres o gamau i ddisgyblion fel y gallant gael ateb ac yna darparu ymarferion ailadroddus'

Variation Theory

'did not plan well enough to teach the understanding of mathematical concepts'

'Where teaching is less effective, and pupils do not make enough progress, teachers teach pupils a series of steps so that they can obtain an answer and then provide pupils with repetitive practice'

Theori Amrywiad

Beth yw theori amrywiad?

Y syniad tu ôl i'r theori hwn yw bod yr athro yn dangos dau (neu fwy) o sefyllfaoedd lle mae'r rhan fwyaf o bethau yn aros yn gyson, ond mae un (neu ychydig o) agwedd(au) yn newid

Bydd disgyblion felly yn sylwi ar beth yw effaith y mae'r newid bychan hwn yn ei gael ar y sefyllfa ac yn ysgogi disgybl i ofyn pam mae hyn wedi digwydd?

Variation Theory

What is variation theory?



The idea behind the theory is that the teacher shows two (or more) situations where most aspects stay the same but there is a minimal change to one (or a very few) aspect(s)

Pupils will therefore notice the effect that this minimal change has had on the situation and spark their curiosity of why this has happened?

Theori Amrywiad / Variation Theory

Beth sydd yr un peth? Beth sydd wedi newid? Pam bod hyn yn digwydd?

What is the same, what's different? Why is this?



Theori amrywiad – gwerau chwarae rôl ar gyfrifo cymedr set o ddata.

Darn cyntaf y wers:

- Gwirio bod gyda'r disgyblion y wybodaeth blaenorol angenrheidiol – eu bod yn gwybod ystyr y termau cyfanswm ac amllder, a'u bod yn deall sut i rannu.
- Trafodaeth dosbarth ynglŷn â beth mae 'ar gyfartaledd' yn golygu.
- Esboniad bod yna dri mesur o gyfartaledd.
- Esboniad o sut i gyfrifo'r cymedr gan ddewis enghreifftiau yn ofalus.
- Modelu sut i ddangos y dull wrth gyfrifo.

Variation theory – role play lesson on calculating the mean average of a set of data.

First phase of the lesson:

- Check for the necessary prior knowledge: pupils will need to know the meaning of the terms 'total' and 'frequency'. Pupils will need to know how to divide.
- Discussion around what it means to be 'average'.
- Explain that there are three different measures of average but that here we will focus on the mean
- Explain how to calculate the mean using a careful choice of examples.
- Modelling of how to show method/workings out.

Er enghraifft

I gyfrifo cymedr, defnyddiwn y fformwla:

$$\text{Cymedr} = \frac{\text{Cyfanswm}}{\text{Amllder}}$$

Cyfrifwch oedran cymedrig y grŵp canlynol o ddisgyblion:

3, 7, 8, 5, 7

$$\text{Cymedr} = \frac{\text{Cyfanswm}}{\text{Amllder}} = \frac{30}{5} = 6$$

For example:

To calculate the mean:

$$\text{Mean} = \frac{\text{Total}}{\text{Frequency}}$$

Calculate the mean age for this group of pupils:

3, 7, 8, 5, 7

$$\text{Mean} = \frac{\text{Total}}{\text{Frequency}} = \frac{30}{5} = 6$$

Un ffordd y gall theori amrywiad gael ei ddefnyddio

Cymerwch ddarn o bapur ac atebwch cwestiwn 1.

Ar gyfer bob cwestiwn dilynol, defnyddiwch y dull **CRAGEN** i ateb y cwestiwn nesaf

Cymharwch y cwestiwn gyda'r cwestiwn blaenorol. Oes yna batrwm? Beth sydd yn debyg, beth sydd yn wahanol?

Rhagfynegwch beth fydd yr ateb cyn mynd ati i'w gyfrifo.

Atebwch y cwestiwn gan ddefnyddio'r dull ffurfiol sydd wedi ei ddysgu i chi.

Gwerthuswch pa mor dda oedd eich rhagfynegiad.

Esboniwch – ceisiwch esbonio pam roedd eich rhagfynegiad yn gywir neu'n anghywir.

Nesaf – ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf gan ailadrodd y camau.

One way in which variation theory can be used?

Take a piece of paper and answer question 1.

For each subsequent question, follow the **COMPARE** method to answer each question

COMpare the numbers in the question with the numbers in the previous question. Can you see a pattern? What is the same, what is different?

Predict the answer to the new question. Without answering the question, what do you think the answer will be?

AnsWER the question using the formal method.

Reflect on how your answer compares with your prediction

Explain why your prediction was correct / incorrect

One way in which variation theory can be used?

Take a piece of paper and answer question 1.

For each subsequent question, follow the **COMPARE** method to answer each question

COMpare the numbers in the question with the numbers in the previous question. Can you see a pattern? What is the same, what is different?

Predict the answer to the new question. Without answering the question, what do you think the answer will be?

AnsWER the question using the formal method.

Reflect on how your answer compares with your prediction

Explain why your prediction was correct / incorrect

In each of the following questions, the data represents the ages of a group of pupils. Calculate the mean age (average age) for each group:

Q1	5,	7,	7,	3,	8	
Q2	6,	8,	8,	4,	9	
Q3	5,	9,	8,	4,	9	
Q4	5,	9,	8,	4,	9,	7
Q5	11,	9,	8,	4,	9,	7
Q6	22,	18,	16,	8,	18,	14
Q7.	22.2,	18.2,	16.2,	8.2,	18.2,	14.2
Q8.	-22.2,	-18.2,	-16.2,	-8.2,	-18.2,	-14.2

With questions 9 and 10, compare with question 1 each time:

Q9.	$\frac{5}{8}$,	$\frac{7}{8}$,	$\frac{7}{8}$,	$\frac{3}{8}$,	1
Q10.	5^2 ,	7^2 ,	7^2 ,	3^2 ,	8^2

Un ffordd y gall theori amrywiad gael ei ddefnyddio

Cymerwch ddarn o bapur ac atebwch cwestiwn 1.

Ar gyfer bob cwestiwn dilynol, defnyddiwch y dull **CRAGEN** i ateb y cwestiwn nesaf

Cymharwch y cwestiwn gyda'r cwestiwn blaenorol. Oes yna batrwm? Beth sydd yn debyg, beth sydd yn wahanol?

Rhagfynegwch beth fydd yr ateb cyn mynd ati i'w gyfrifo.

Atebwch y cwestiwn gan ddefnyddio'r dull ffurfiol sydd wedi ei ddysgu i chi.

Gwerthuswch pa mor dda oedd eich rhagfynegiad.

Esboniwch – ceisiwch esbonio pam roedd eich rhagfynegiad yn gywir neu'n anghywir.

Nesaf – ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf gan ailadrodd y camau.

Mae'r data ym mhob un o'r cwestiynau canlynol yn cynrychioli oedrannau grŵp o ddisgyblion. Cyfrifwch oedran cymedrig bob grŵp.

1. 5, 7, 7, 3, 8
2. 6, 8, 8, 4, 9
3. 5, 9, 8, 4, 9
4. 5, 9, 8, 4, 9, 7
5. 11, 9, 8, 4, 9, 7
6. 22, 18, 16, 8, 18, 14
7. 22.2, 18.2, 16.2, 8.2, 18.2, 14.2
8. -22.2, -18.2, -16.2, -8.2, -18.2, -14.2

Gyda cwestiwn 9 a 10, cymharwch yn ôl gyda cwestiwn 1 bob tro:

9. $\frac{5}{8}$, $\frac{7}{8}$, $\frac{7}{8}$, $\frac{3}{8}$, 1
10. 5^2 , 7^2 , 7^2 , 3^2 , 8^2

Defnydd Ysgol Penglais o Theori Amrywiad

How Ysgol Penglais uses Variation Theory

Ysgol Penglais

Theori Amrywiad


Adnoddau pellach:

- Fideo yn dangos sut mae Ysgol Penglais yn defnyddio'r theori mewn **tri** gwahanol ffordd
- [Astudiaeth achos](#) yn yr adroddiad am wers lle cafodd ei ddefnyddio (tudalen 23)
- Gwefan '[VariationTheory.com](#)'
- Ail lyfr Craig Barton
- Serch hyn – y ffordd orau yw i ddechrau addasu eich deunyddiau a meddwl sut gallwch chi ddefnyddio'r syniad hwn wrth ddewis enghreifftiau a chwestiynu disgyblion

Variation Theory

Further resources:

- Video outlining how Ysgol Penglais uses variation theory in **three** different ways
- A case study in the report about one lesson where the theory is used (page 23)
- The [VariationTheory.com](#) website
- Craig Barton's second book or similar
- However – the best way is to start adapting your own resources and thinking about how you can use this idea when choosing examples and questioning pupils



Eich tro chi

Yn y deg munud nesaf, rydym am i chi geisio:

- Meddwl am destun yr ydych yn mynd i'w addysgu yn ystod yr wythnosau nesaf a chreu cyfres o gwestiynau sydd yn cyd-fynd gyda theori amrywiad.
- Gallwch weithio yn unigol neu mewn parau.
- Os ydych chi'n cytuno y gallai hwn fod yn bwerus, beth am drefnu i rannu eich ymarfer gydag aelodau eraill y bwrdd.

Your turn

For the next ten minutes, we want you to:

- Think of a topic that you will be teaching over the next few weeks and create a set of questions which follows the principles of variation theory.
- You can work individually or in pairs.
- If you agree that this idea could be powerful, why don't you arrange to share your resource with the other members of your table.

Disgwyliadau athrawon ddim yn ddigon uchel

'diffyg eglurder mewn canllawiau cenedlaethol i gynorthwyo athrawon ac arweinwyr i ddeall y disgwyliadau gofynnol o ran dealltwriaeth a chynnydd disgyblion mewn mathemateg. Yn aml, roedd hyn yn golygu nad oedd gan athrawon ac arweinwyr ddisgwyliadau digon uchel o sut dylai disgyblion wneud cynnydd yn eu dealltwriaeth fathemategol'

Teachers not having high enough expectations

'a lack of clarity in national guidance to support teachers and leaders in understanding the minimum expectations of pupils' understanding and progress in mathematics; often, this meant that teachers and leaders did not have high enough expectations of how pupils should progress in their mathematical understanding'

Setting of minimum expectations

MSPW Resource – taken from PS3

DOL - I can use a range of representations to develop and secure my understanding that the value of a digit is related to its position. I can read, record and interpret numbers, using figures and words up to at least one million.

Strand 1. Read, record and interpret numbers

Granular detail 1: Up to 10,000

- Read, write and interpret numbers up to 10,000 using digits and words.
- Use a place value chart to understand numbers up to 10,000, recognising thousands, hundreds, tens and ones.
- Decompose or partition numbers into their place value components and explain how they are structured.
- Compare and order numbers up to 10,000 using place value knowledge and symbols such as $<$, $>$ and $=$.
- Round numbers to the nearest 10, 100 and 1,000 to estimate and check values.

Granular detail 2: Up to a million

- Read, write and interpret numbers up to one million using digits and words.
- Use a range of tools, including number lines and place value charts to understand and compare large numbers.
- Explain the value of digits in numbers up to one million using place value knowledge.
- Apply rounding strategies to estimate large numbers in real-life situations.
- Use an understanding of place value to solve problems involving large numbers, including addition and subtraction.

Granular detail 3: Beyond a million

- Represent numbers up to one million using place value charts, base ten blocks and digital models.
- Use number lines and place value charts to show how the value of digits changes depending on their position.
- Explain how shifting a digit left or right affects its value.
- Use diagrams and visual aids to compare and explain large numbers in real-world contexts.
- Interpret large numbers in different real-life contexts.
- Record and organise large numbers in tables, charts and diagrams to make comparisons.
- Use large numbers in problem-solving tasks, including real-world application.

Gosod disgwyliadau sylfaenol

Adnodd MSPW – wedi ei gymryd o CC3

Disgrifiad dysgu - Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o gynrychioliadau i ddatblygu a chadarnhau fy nealltwriaeth fod gwerth digid yn ymwneud â'i safle. Rwy'n gallu darllen, ysgrifennu a dehongli rhifau, gan ddefnyddio ffigurau a geiriau hyd at filiwn, o leiaf

I. Darllen, cofnodi a dehongli rhifau

Manylion gronynnog 1: Hyd at 10,000

- Darllen, ysgrifennu a dehongli rhifau hyd at 10,000 gan ddefnyddio digidau a geiriau.
- Defnyddio siart gwerth lle i ddeall rhifau hyd at 10,000, gan adnabod miloedd, cannoedd, degau ac unedau.
- Dadelfennu neu ymrannu rhifau i'w cydrannau gwerth lle ac esbonio sut maent wedi'u strwythuro.
- Cymharu a threfnu rhifau hyd at 10,000 gan ddefnyddio gwybodaeth gwerth lle a symbolau megis $<$, $>$ a $=$.
- Talgrynnu rhifau i'r 10, 100 a 1,000 agosaf i amcangyfrif a gwirio gwerthoedd.

Manylion gronynnog 2: Hyd at filiwn

- Darllen, ysgrifennu a dehongli rhifau hyd at filiwn gan ddefnyddio digidau a geiriau.
- Defnyddio ystod o offer, gan gynnwys llinellau rhif a siartiau gwerth lle, i ddeall a chymharu rhifau mawr.
- Esbonio gwerth digidau mewn rhifau hyd at filiwn gan ddefnyddio gwybodaeth gwerth lle.
- Cymhwyso strategaethau talgrynnu i amcangyfrif rhifau mawr mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.
- Defnyddio dealltwriaeth o werth lle i ddatrys problemau sy'n ymwneud â rhifau mawr, gan gynnwys adio a thynnu.

Manylion gronynnog 3: Y tu hwnt i filiwn

- Cynrychioli rhifau hyd at filiwn gan ddefnyddio siartiau gwerth lle, blociau bôn deg a modelau digidol.
- Defnyddio linellau rhif a siartiau gwerth lle i ddangos sut mae gwerth digidau yn newid yn dibynnu ar eu safle.
- Esbonio sut mae symud digid i'r chwith neu'r dde yn effeithio ar ei werth.
- Defnyddio diagramau a chymhorthion gweledol i gymharu ac esbonio rhifau mawr mewn cyd-destunau byd go iawn.
- Dehongli rhifau mawr mewn gwahanol gyd-destunau bywyd go iawn.
- Cofnodi a threfnu rhifau mawr mewn tablau, siartiau a diagramau i wneud cymariaethau.
- Defnyddio rhifau mawr mewn tasgau datrys problemau, gan gynnwys cymhwysiad yn y byd go iawn.

Hyfedreddau

Er enghraifft:

Dealltwriaeth gysyniadol

- Mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o werth lle trwy ddefnyddio gwahanol gynrychioliadau, megis blociau bôn deg, llinellau rhif a siartiau gwerth lle, i archwilio sut mae gwerth digid yn newid yn seiliedig ar ei safle mewn rhif.
- Enghraifft: “Pam mae’r ‘5’ yn werth 5,000 yn 5,342 ond dim ond 50 yn 7,654?”

Proficiencies

For example:

Conceptual understanding

- Learners develop their understanding of place value by using different representations, such as base-ten blocks, number lines and place value charts, to explore how the value of a digit changes based on its position in a number.
- Example: “Why is the ‘5’ worth 5,000 in 5,342 but only 50 in 7,654?”

Cwestiynau ar gyfer meddwl yn fathemategol

- Sut mae siart gwerth lle yn helpu i ddeall rhifau hyd at 10,000?
- Pam mae'n ddefnyddiol rhannu rhifau i'w cydrannau gwerth lle?
- Sut mae cymharu rhifau gan ddefnyddio symbolau $<$, $>$ a $=$ yn helpu i wneud penderfyniadau yn y byd go iawn?
- Pa strategaethau allwch chi eu defnyddio i drefnu rhifau hyd at 10,000 yn effeithlon?
- Sut mae talgrynnu rhifau i'r 10, 100 neu 1,000 agosaf yn helpu i amcangyfrif gwerthoedd?
- Ym mha sefyllfaoedd fyddai talgrynnu yn ddefnyddiol mewn bywyd bob dydd?
- Pam mae'n bwysig deall safle pob digid mewn rhif?
- Sut gall deall gwerth lle helpu i adnabod gwallau mewn cyfrifiadau?
- Pam mae darllen ac ysgrifennu rhifau mewn geiriau a digidau yn bwysig?
- Sut mae gwybodaeth gwerth lle yn helpu i wirio rhesymolrwydd rhif?
- Pa batrymau allwch chi ddarganfod wrth dalgrynnu gwahanol rifau?
- Sut mae dadelfennu rhifau yn gwneud problemau cymhleth yn haws i'w datrys?
- Pam rydyn ni'n defnyddio symbolau megis $<$, $>$ a $=$ wrth gymharu rhifau?
- Sut gall amcangyfrif gwerthoedd gan ddefnyddio talgrynnu helpu mewn cyllidebu neu siopa?
- Pam mae'n bwysig darllen a dehongli rhifau yn gywir mewn cyd-destunau byd go iawn?

Questions for mathematical thinking

- How does a place value chart help in understanding numbers up to 10,000?
- Why is it useful to break down numbers into their place value components?
- How does comparing numbers using $<$, $>$ and $=$ symbols help in real-world decision-making?
- What strategies can you use to efficiently order numbers up to 10,000?
- How does rounding numbers to the nearest 10, 100 or 1,000 help in estimating values?
- In what situations would rounding be useful in everyday life?
- Why is it important to understand the position of each digit in a number?
- How can understanding place value help identify errors in calculations?
- Why is reading and writing numbers in both words and digits important?
- How does place value knowledge help in checking the reasonableness of a number?
- What patterns can you find when rounding different numbers?
- How does decomposing numbers make complex problems easier to solve?
- Why do we use symbols such as $<$, $>$ and $=$ when comparing numbers?
- How can estimating values using rounding help in budgeting or shopping?
- Why is it important to read and interpret numbers accurately in real-world contexts?

Aesu ffurfiannol

'nid oedd athrawon yn ymarfer addysgu ymatebol o fewn ystafelloedd dosbarth mathemateg'

'nid oedd athrawon yn defnyddio holi'n ddigon da i fynd i'r afael â chamdybiaethau'

Formative assessment

'did not practice responsive teaching within mathematics classrooms'

'did not use questioning well enough to address pupils' misconceptions'

Nid oes gan Estyn ddull mae'n ei ffafrio OND...

Rydym yn arsylwi tua 100 o wersi bob blwyddyn.

- Hyd yn oed pam mae esboniad athro yn dda iawn, ein profiad ni yw y bydd yna rai disgyblion fydd ddim wedi deall y cysyniad.
- Mae hyn yn debygol iawn o effeithio cynnydd disgyblion ac felly, trwy ein methodoleg ni, ansawdd yr addysgu.
- Mae felly yn gallu bod yn fanteisiol i ddefnyddio strategaeth sydd yn caniatáu i chi 'fesur' pa mor dda mae disgyblion wedi deall neu a oes camsyniadau ganddynt.

Estyn has no preferred method BUT...

We observe around 100 lessons every year.

- Even when the teacher's explanation is brilliant, our experience is that some pupils probably still won't have grasped what the teacher wants them to.
- This is likely to affect pupils' progress and therefore by our methodology the quality of teaching.
- It is therefore advantageous to use some method of 'measuring' how well pupils have understood or whether they have misconceptions which will hold them back.

Lefel yr her a tempo'r addysgu

Yn ein adroddiadau, rydym yn aml yn beirniadu lefel yr her mewn gwersi. Mewn mathemateg, mae gosod y lefel her gywir yn hanfodol.

- Rhy isel a nid yw disgyblion yn dysgu
- Rhy uchel ac mae'r cof gweithio disgyblion yn cael ei orlwytho a disgyblion yn colli hyder

Mae defnyddio dulliau asesu ffurfiannol felly yn fanteisiol ar gyfer gweld a yw lefel yr her a tempo'r addysgu yn gywir.

Level of challenge and pace of teaching

In our reports, we often criticise the level of challenge in lessons. In maths, setting the right level of challenge is essential.

- Too low and pupils are not learning
- Too high and pupils' working memory becomes overloaded and they lose confidence

The use of formative assessment methods is therefore advantageous in allowing the teacher to see whether the level of challenge and the tempo of teaching are correct.

Dulliau posibl o asesu'n ffurfiannol

Defnydd effeithiol o fyrddau gwyn bach

Rhesymau dros ddefnyddio byrddau gwyn bach:

1. Mae'n rhaid i bob disgybl ymgysylltu â'r cwestiwn
2. Mae'r athro yn gweld ymatebion yr holl ddisgyblion
3. Mae'r athro yn gweld a yw pob disgybl wedi deall
4. Gall yr athro adnabod unrhyw gamsyniadau yn gyflym
5. Gall yr athro fesur a yw lefel yr her a chyflymder y wers yn briodol
6. Mae disgyblion yn aml yn fwy parod i roi cynnig ar fwrdd gwyn bach
7. Gall yr athro ddefnyddio'r wybodaeth hon i addysgu'n ymatebol – gan gynyddu lefel yr her neu gymryd cam yn ôl
8. Gallwch ddangos atebion gwahanol ac ysgogi trafodaeth / defnyddio'r atebion fel sail ar gyfer cwestiynau dyfnach
9. Gall disgyblion weld bod yna wahanol ddulliau y gellir eu defnyddio i ddatrys problem yn aml

Possible methods for formative assessment

Effective use of mini whiteboards

Reasons to use mini whiteboards:

1. All pupils have to engage with the question
2. The teacher sees the responses of all pupils
3. The teacher sees whether all pupils have understood
4. The teacher can identify any misconceptions quickly
5. The teacher can gauge whether the level of challenge and pace of the lesson are appropriate
6. Pupils are often more willing to have a go on a mini whiteboard
7. The teacher can use this information to teach responsively – increasing the level of challenge or taking a step back
8. You can show different answers and provoke a discussion / use the answers as the basis for deeper questioning
9. Pupils can see that there are often different methods that can be used to solve a problem

Asesu ffurfiannol

Rhesymau a roddir dros beidio â defnyddio byrddau gwyn bach:

1. Mae'r pennau i gyd wedi rhedeg allan
2. Mae nhw'n rhwystr ac mae'r disgyblion yn tynnu lluniau arnyn nhw yn hytrach na chanolbwyntio ar y gwaith
3. Mae fy nghwestiynu yn ddigon da – nid oes eu hangen arnaf
4. Mae'n llawer o waith i'w rhoi allan a'u casglu yn ôl i mewn
5. Weithiau mae disgyblion yn taflu'r rhwbwyr o gwmpas y dosbarth
6. Ni fydd unrhyw dystiolaeth yn y llyfrau ar gyfer Estyn / UDA

Formative assessment

Reasons given for not using mini whiteboards:

1. All the pens have run out
2. They are a hindrance and pupils doodle on them rather than concentrating on the work
3. My questioning is good enough – I don't need them
4. It is a lot of work to give them out and collect them back in
5. Pupils sometimes throw the erasers around the class
6. There won't be any evidence in the books for Estyn / SLT

Dulliau posibl o asesu'n ffurfiannol

Defnydd effeithiol o fyrddau bach gwyn

Fideos mathemateg:

[Adnoddau Fideo Mathemateg - Estyn](#)

Sgwrs rhwng [Craig Barton ac Adam Boxer](#) – Mr Barton Podcast. Rhif 205 rhwng 19:00 a 38:32 lle maent yn siarad am 'The tick trick'

Llyfr byr penodol gan Craig Barton



Possible methods for formative assessment

Effective use of mini whiteboards

Mathematics videos:

[Mathematics Video Resources – Estyn](#)

Discussion between [Craig Barton and Adam Boxer](#) – Mr Barton Podcast Number 205 between 19:00 and 38:32 where they talk about a strategy called 'The tick trick'

Short book by Craig Barton

Cwestiynau diagnostig Diagnostic questions

Beth yw arwynebedd petryal sydd â hyd 12cm a lled 4cm?

What is the area of a rectangle with length of 12 cm and width of 4 cm?

A: 23cm^2

B: 12cm^2

C: 24cm^2

D: 48cm^2

Cwestiwn gwell

A better question

Beth yw arwynebedd
petryal sydd â hyd 12cm a
lled 4cm?

What is the area of a
rectangle with length of
12cm and width of 4cm?

A: 16cm

Wedi adio'r hyd a'r lled yn lle eu lluosu
Added length and width rather than multiplying

B: 32cm

Wedi cyfrifo'r perimedr yn lle arwynebedd
Calculated the perimeter rather than the area

C: 48cm

Disgybl wdi camddeall unedau arwynebedd
Pupil has misunderstood the units of area

D: 48cm²

Ateb CYWIR CORRECT answer

Defnydd o adnodd cwestiynau diagnostig fel dysgu proffesiynol

Mae yna filoedd o gwestiynau ar [Diagnostic Questions.com](https://www.diagnosticquestions.com)

Mae hi hefyd yn hawdd iawn i greu eich cwestiynau eich hun ar y wefan ac yna ei defnyddio i gael dadansoddiadau o ymatebion disgyblion.

Mae athrawon da yn aml yn gallu rhagweld beth fydd disgyblion yn ei weld yn anodd neu pa gamsyniadau byddant yn eu datblygu. Beth am dreulio peth amser mewn cyfarfod adran yn dylunio cwestiynau o'r math hyn gyda'ch gilydd, gan drafod yr opsiynau gorau fel atebion.

Use of diagnostic questions resource for professional learning

There are thousands of these questions on [Diagnostic Questions.com](https://www.diagnosticquestions.com)

It is also easy to create your own questions on the website and use it to obtain analyses of pupils' responses.

Good teachers often foresee what pupils will find difficult or the misconceptions that pupils may develop. How about spending some time during department meeting time designing questions together and discussing what you will choose as the best options for the answers.

Sleidiau y gellid eu defnyddio mewn cyfarfod adran


- Mae tystiolaeth o ymchwil sy'n awgrymu bod cynllunio gwers gyda'n gilydd yn weithgaredd dysgu proffesiynol buddiol.
- Mae Craig Barton yn credu, pan fydd athrawon yn gwneud hyn, eu bod yn tueddu i ganolbwyntio gormod ar bethau sydd yn ei farn e yn ddibwys – sut olwg fydd ar y cyflwyniad Pwynt pŵer, pa gefndir / delweddau y dylid ei ddefnyddio, pa weithgareddau y dylid eu cynnwys, a faint o amser y dylid ei neilltuo ar gyfer pob gweithgaredd ac ati.
- Mae'n awgrymu ei bod yn llawer mwy buddiol i athrawon gynllunio pa gwestiynau mae'n nhw am i ddisgyblion allu eu hateb, a pha gwestiynau diagnostig y dylent eu defnyddio i amlygu camsyniadau disgyblion neu mesur eu perfformiad.

Possible slides to use in a departmental meeting

- There is evidence from research suggesting that planning a lesson together is a beneficial PL activity.
- Craig Barton believes that when teachers do this, they tend to focus too much on what he believes to be the unimportant stuff – what the Powerpoint presentation will look like and what background / clipart should be used, what activities should be included, and how much time should be allocated for each activity etc.
- He suggests that it is far more beneficial for teachers to plan what questions they want pupils to be able to answer, and what diagnostic questions they should use to identify pupils' misconceptions / measure performance.

Possible slides to use in a departmental meeting

The following question is taken from [DiagnosticQuestions.com](https://www.DiagnosticQuestions.com):



What is the Lowest Common Multiple of 6 and 9?

A) 2 B) 3

C) 18 D) 54

Why did the teacher who wrote this question include the incorrect answers 2, 3 and 54?

What misconception (if any) does each answer expose? Which do you believe would be the most common wrong option?

Does this depend on whether this is a question included in a retrieval starter or during the teaching of LCM and HCF?

If you were designing this diagnostic question, would you have included the same options?

Sleidiau y gellid eu defnyddio mewn cyfarfod adran

Mae'r cwestiwn canlynol wedi ei gymryd o DiagnosticQuestions.com:

Beth yw Lluosrif Cyffredin Lleiaf y rhifau 6 a 9?

A) 2

B) 3

C) 18

D) 54

Pam ydych chi'n meddwl wnaeth yr athro gynnwys yr atebion anghywir 2, 3 a 54?

Pa gamsyniad (os o gwbl) mae pob ateb yn ei ddatgelu?

Pa un ydych chi'n credu fyddai'r opsiwn anghywir mwyaf cyffredin? A yw eich ateb i hyn yn dibynnu ar a yw hwn yn gwestiwn sydd wedi'i gynnwys mewn cychwyn adfer neu yn ystod addysgu LCM a HCF?

Pe baech chi'n dylunio'r cwestiwn diagnostig hwn, a fydddech chi wedi cynnwys yr un opsiynau?

Possible slides to use in a departmental meeting

Sleidiau y gellid eu defnyddio mewn cyfarfod adran

- Ar gyfer bob un o'r cwestiynau canlynol, dewisiwch y pedwar opsiwn byddech chi'n eu cynnwys fel atebion aml-ddewis. Gwnewch hyn yn unigol yn gyntaf, ac yna trafodwch fel adran.
- For each of the following questions choose which four options you would include as multiple choice answers. Do this individually first then discuss the options as a department.

Q1: Calculate / Cyfrifwch -6 - 7

Possible slides to use in a departmental meeting

Sleidiau y gellid eu defnyddio mewn cyfarfod adran

Question 2:

30% of a sum of money is £150. What was this original amount of money?


Cwestiwn 2:

30% o swm o arian ydy £150. Beth oedd y swm gwreiddiol hwnnw o arian?

Possible slides to use in a departmental meeting
Sleidiau y gellid eu defnyddio mewn cyfarfod adran

Cw3: Cyfrifwch arwynebedd y triongl hwn:

Q3: Calculate the area of the following triangle



Possible slides to use in a departmental meeting

Sleidiau y gellid eu defnyddio mewn cyfarfod adran

Cw4: Datrysych $3(4 - 2y) = 20 - 5y$

Q4: Solve $3(4 - 2y) = 20 - 5y$

Mae hwn yn gwestiwn camarweiniol. Mae cymaint o broblemau y gallai godi wrth i ddisgyblion ateb y cwestiwn hwn. Bydda'n anodd felly dewis 4 opsiwn.

Byddai'r athro yn llawer gwell wrth ddefnyddio byrddau gwyn bach gyda'r cwestiwn hwn a gydag unrhyw gwestiwn algebra aml-gam.

This is a trick question. There are so many traps that pupils could fall into so choosing four options would be difficult.

The teacher would be far better using mini whiteboards with this question and any multi-step algebra question.

Possible slides to use in a departmental meeting

Sleidiau y gellid eu defnyddio mewn cyfarfod adran

- Beth am roi cynnig ar y cwestiynau hyn rydyn ni wedi bod yn eu trafod gyda'ch disgyblion i weld a yw eich rhagfynegiadau am beth yw'r camsyniadau mwyaf cyffredin yn gywir.
- Beth ydym ni fel adran yn mynd i'w wneud i newid ein harfer o ganlyniad i'r drafodaeth hon?
- Beth am ddylunio rhai cwestiynau diagnostig i'w defnyddio pan fyddwch yn addysgu un o'ch dosbarthiadau yr wythnos hon / yr wythnos nesaf?
- Darllen pellach –
'hypercorrection effect' - er enghraifft <https://tipsforteachers.co.uk/confidence-scores/>
- Why not try the questions we have been discussing with your pupils to see whether your gut feelings about the misconceptions you thought would be most common are correct.
- What are we as a department going to do to change our practice as a result of this discussion?
- Why not design some diagnostic questions to use when teaching one for your classes this week / next week?
- Further reading –
The 'hypercorrection effect' – for example:
<https://tipsforteachers.co.uk/confidence-scores/>

Dulliau posibl o asesu'n ffurfiannol

Mae yna ddulliau eraill o gasglu gwybodaeth yn y foment am gynnydd disgyblion. Nid oes dull mae Estyn yn ei ffafrio. a cyn belled bod athrawon:

- yn gwybod pa mor dda mae disgyblion yn deall a defnyddio hyn i lywio'r addysgu
- Yn medru adnabod a mynd i'r afael â chamsyniadau disgyblion

Possible methods of formative assessment

There are other methods of collecting information about pupils' progress. Estyn have no preferred method as long as teachers:

- know how well pupils understand and use this information to guide their teaching
- Identify and address misconceptions in a timely way.

Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn ddwfn, datrys problemau ac adnabod strwythur mathemategol problemau

'roedd athrawon yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau dysgu'n annibynnol o ganlyniad i addysgu â gormod o gyfarwyddyd'

Providing opportunities for pupils to think deeply, solve problems and recognise the underlying mathematical structures

'limited the opportunities for pupils to develop independent learning skills due to over-directed teaching'

Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn ddwfn, datrys problemau ac adnabod strwythur mathemategol problemau

Yn Siapan a Singapore, mae llawer o amser mewn gwersi mathemateg yn cael ei dreulio yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion edrych ar strwythurau mathemategol problemau gwahanol.

Fe welon ni wers lle gwnaed hyn yn dda iawn llynedd. Roedd y disgyblion Blwyddyn 9 wedi bod yn dysgu am rannu mewn cymhareb ac roedd yr athro wedi defnyddio modelau bar i gyflwyno'r pwnc. Yn y wers hon – yr olaf ar cymhareb, roedd disgyblion yn ceisio paru'r modelau bar anghyflawn gyda'r cwestiynau. Yn ein barn ni, roedd y disgyblion wedi gwneud cynnydd da, wedi meddwl llawer a datblygu eu dealltwriaeth nhw o strwythurau mathemategol problemau cymhareb.

Cymerwch 5 munud i roi tro ar y weithgaredd.

Providing opportunities for pupils to think deeply, solve problems and recognise the underlying mathematical structures

